CRYNODEB

Mapio'r Bylchau:

Y Loteri Cod Post o Wasanaethau Cymorth Trais yn Erbyn Menywod



END VIOLENCE AGAINST WOMEN

Dileu Trais yn Erbyn Menywod

Maddy Coy, Liz Kelly a Jo Foord

ynghyd â Val Balding a Rebecca Davenport

Mewn partneriaeth â'r

Equality and Human Rights Commission | Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cydnabyddiaeth

Cafodd prosiect Mapio'r Bylchau ei gychwyn a'i ddatblygu gan nifer o bobl. Diolch arbennig i Sefydliad Roddick am ei gwneud hi'n bosibl i Uned Astudiaethau Cam-drin Plant a Menywod gynnal gwaith ymchwil oedd angen ei wneud. Rydyn ni'n cyflwyno'r astudiaeth hon a'r ymgyrch a fydd yn dilyn er cof am Anita Roddick, a oedd, fel ninnau, yn credu bod gan fenywod hawl i fyw heb drais. Roedd yn hyrwyddo gwasanaethau i fenywod, gan ddeall y swyddogaeth unigryw a hanfodol sydd ganddynt o ran dadwneud peth o'r niwed y mae trais yn ei achosi a sicrhau bod cymdeithasau'n atebol fel eu bod yn dangos parch ac urddas at bob menyw ac yn gwneud iawn am droseddau yn erbyn hawliau dynol.

Yn ogystal â'r awduron cafwyd cyfraniadau sylweddol gan fenywod eraill wrth gasglu a dadansoddi data: Val Balding gychwynnod y prosiect, datblygu'r cronfeydd data cychwynnol a chyflawni dadansoddiad rhanbarthol; Rebecca Davenport gwblhaodd y dadansoddiad rhanbarthol. Cafwyd cyfraniadau a chymorth olygyddol gan gydweithwyr eraill yn yr Uned.

Mae unigolion a grwpiau ail haen ledled gwledydd a rhanbarthau'r DU wedi gwirio ein cronfa ddata a'i chymharu â'u cofnodion hwythau. Cafwyd cyngor arbenigol gan aelodau Clymblaid Dileu Trais yn Erbyn Menywod (EVAW) ar y prosiect yn gyffredinol ac mae Holly Dustin, rheolydd ymgyrch y Glymblaid wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r holl brosiect.

Yn olaf rhaid cydnabod y gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn, sy'n parhau i ddarparu cymorth arbenigol o ansawdd i fenywod gydag adnoddau a chydnabyddiaeth cyfyngedig.

Mapio'r Bylchau 2007
Hawlfraint © Dileu Trais yn Erbyn Menywod
Cyhoeddwyd gan Dileu Trais yn Erbyn Menywod

End Violence Against Women
17-25 New Inn Yard
London EC2A 3EA

Ffôn + 44 (0) 207 033 1559
Ffacs: + 44 (0) 207 033 1796

www.endviolenceagainstwomen.org.uk

www.equalityhumanrights.com

Crynodeb Gweithredol

Mae dros dair miliwn o fenywod ledled y DU yn wynebu trais bob blwyddyn. Mae gwasanaethau cymorth yn hanfodol i'r menywod hyn er mwyn iddynt gael diogelwch, cyfiawnder a'u galluogi i fwrw ymlaen â'u bywyd. Am y tro cyntaf erioed, mae *Mapio'r Bylchau* yn dangos yn glir bod menywod yn y DU yn wynebu loteri cod post o ran eu gallu i gael gafael ar wasanaethau cymorth sylfaenol. Tra bo lleiafrif o fenywod yn byw mewn ardal lle ceir gwasanaethau da, mae gormod o fenywod yn wynebu darpariaeth fratiog neu ddim cymorth o gwbl.

Mae'r ddarpariaeth orau i'w chael yn yr Alban lle mae gwasanaethau wedi'u dosbarthu'n fwy cyfartal. Dyma'r unig ran o'r DU hefyd lle gwelwyd cynnydd yn y Canolfannau Argyfwng Trais Rhywiol. Mae'r rheswm yn syml; mae llywodraeth yr Alban yn datblygu dull strategol i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod ac wedi dyrannu cyllid wedi'i neilltuo i wasanaethau.

Argymhelliad allweddol: Mae Dileu Trais yn Erbyn Menywod a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn galw ar lywodraethau cenedlaethol ac awdurdodau lleol i gymryd camau gweithredu brys i sicrhau darpariaeth a chyllid cenedlaethol cyson ar gyfer gwasanaethau cymorth trydydd sector arbenigol i bob menyw.

Mae'r Comisiwn yn ystyried bod y mater hwn yn brawf allweddol ar gyfer barnu a yw adrannau Llywodraeth Prydain ac awdurdodau lleol yn bodloni'u rhwymedigaethau cyfreithiol a dan y Ddyletswydd Cydraddoldeb Rhywiol.

Maint y Broblem

Diffiniad y Cenhedloedd Unedig o drais yn erbyn menywod yn unrhyw weithred o drais ar sail rhyw sydd wedi'i gyfeirio yn erbyn menyw am ei bod hi'n fenyw neu sy'n effeithio yn anghymesur ar fenywod. Mae trais yn erbyn menywod yn y DU yn cynnwys: Trais a cham-drin rhywiol; trais yn y cartref; priodas orfodol; aflonyddu rhywiol a stelcio; masnachu a chamfanteisio'n rhywiol; troseddau er anrhydedd; ac anffurfio organau rhywiol menywod.

Er bod dynion yn fwy tebygol o wynebu trais o dan rai mesurau, nid yw hyn fel arfer yn rhan o batrwm o ymddygiad ailadroddus. Yn wahanol i drais yn erbyn menywod, nid yw'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau treisgar mae dynion yn eu hwynebu yn achos neu'n ganlyniad i anghydraddoldeb. Dynion y maen nhw'n eu hadnabod sy'n cyflawni'r trais yn erbyn menywod yn gyffredinol - partneriaid, aelodau o'r teulu, ffrindiau, cydweithwyr. Hefyd, mae aflonyddu rhywiol yn gyhoeddus yn gyffredin iawn ac yn cyfrannu at yr ofn sydd gan fenywod o drosedd ac ydyn nhw'n teimlo'n ddiogel mewn mannau cyhoeddus gyda'r nos ai peidio.

Mae menywod ddwywaith mor debygol â dynion o bryderu am droseddau treisgar. Mae trais yn erbyn menywod yn broblem ym maes ethnigrwydd, oed, anabledd a chategorïau eraill: Mae merched a menywod ifanc yn fwy tebygol o wynebu trais rhywiol; menywod h?n yn fwy tebygol o gael eu cam-drin gan gynhalwyr na dynion h?n; menywod sydd â phroblemau iechyd meddwl ac anableddau dysgu yn agored iawn i drais rhywiol ac eto i gyd y grwpiau hyn sydd leiaf tebygol o weld y troseddwr yn cael ei ddwyn gerbron llys. Mae menywod duon a lleiafrifoedd ethnig yn wynebu rhwystrau ychwanegol i gael gafael ar gymorth ac yn wynebu ffurfiau penodol o drais megis priodas orfodol, anffurfio organau rhywiol menywod a throseddau er anrhydedd.

Y gwirionedd yw bod tair miliwn o fenywod ledled y DU yn wynebu trais bob blwyddyn a bydd bron i hanner y digwyddiadau hyn yn ddifrifol a/neu'n ailadroddus. Hefyd, mae llawer iawn mwy o fenywod wedi wynebu trais yn y gorffennol fel plant neu oedolion ac angen cymorth i fynd i'r afael ag effeithiau erledigaeth. Felly, mae'n debygol bod yna filiynau o ddefnyddwyr gwasanaethau.



I'r menywod hyn, mae gwasanaethau cymorth arbenigol[1] yn hanfodol er mwyn sicrhau eu diogelwch yn ddi-oed, er mwyn cael cyfiawnder a'u galluogi i fwrw ymlaen â'u bywyd. Mae Mapio'r Bylchau yn dangos yn glir am y tro cyntaf bod gallu cael gafael ar gymorth yn loteri cod post am fod hynny'n dibynnu ar ble rydych chi'n byw. Hefyd, mae llawer o wasanaethau yn wynebu argyfwng ariannol o ganlyniad i'r prosesau comisiynu newydd a'r symudiad tuag at ariannu cyffredinol yn hytrach na ariannu gwasanaethau penodol ar gyfer menywod. Rydyn ni eisoes wedi gweld nifer fawr o wasanaethau'n cau ac mae llawer o wasanaethau eraill yn gwegian o dan bwysau'r galw amdanynt; mae llinellau cymorth yn brysur yn aml, llochesi'n llawn, grwpiau argyfwng Trais goroeswyr â rhestri aros hir ac mae'r cynghorwyr trais yn y cartref a thrais rhywiol newydd yn gorfod cyfyngu eu cefnogaeth i unigolion sy'n cael eu hystyried fel y rhai sydd fwyaf mewn perygl.

- Nid oes gan draean o awdurdodau lleol y DU wasanaeth cymorth arbenigol ar gyfer trais yn erbyn menywod.
- Nid yw'r rhan fwyaf o fenywod yn y DU yn gallu cael gafael ar Ganolfan Argyfwng Trais ac nid oes gan lai na chwarter yr awdurdodau lleol unrhyw wasanaeth trais rhywiol o gwbl.
- Cyfran fechan iawn o'r DU sy'n cael eu gwasanaethu gan Ganolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ar hyn o bryd.
- Mae gan lai nag 1 o bob 10 awdurdod lleol wasanaethau arbenigol ar gyfer menywod du a lleiafrifoedd ethnig a fyddai'n mynd i'r afael â phriodasau gorfodol, anffurfio organau rhywiol menywod a throseddau er anrhydedd, yn ogystal â mathau eraill o drais.
- Nid oes gan bron i draean o awdurdodau lleol unrhyw wasanaethau trais yn y cartref.
- Mae gan lai nag 1 o bob 10 awdurdod lleol wasanaethau ar gyfer menywod sy'n buteiniaid.

Mae pum ardal yn arbennig heb wasanaethau digonol: Dwyrain Lloegr; Llundain; Gogledd Iwerddon; Gogledd Orllewin Lloegr; a De Ddwyrain Lloegr. Mae tri o'r rhanbarthau hyn yn boblog iawn; mae dwy ohonynt â phoblogaethau bach ond ardaloedd gwledig helaeth. Mae'r gwasanaeth i fenywod yng Ngogledd Iwerddon yn arbennig yn edrych yn wael heb unrhyw ddarpariaeth mewn nifer o'r gwasanaethau sydd wedi'u mapio yma.

Ychydig o ardaloedd a all hawlio bod ganddynt ddarpariaeth gwasanaethau digonol i ddiwallu anghenion eu poblogaeth o fenywod sydd wedi wynebu trais yn ddiweddar, heb sôn am lawer mwy sy'n brwydro i ymdopi ag effeithiau'r gorffennol. Rydyn ni'n canmol y naw ardal sydd â'r ddarpariaeth helaethaf - Birmingham, Bradford, Glasgow, Hammersmith a Fulham, Caerl?r, Lerpwl, Manceinion, Nottingham a Sheffield - ond sylwer mai gwasanaethau trais rhywiol sylfaenol sydd gan o leiaf dair o'r ardaloedd hyn.

Mae'n amlwg ei bod hi'n bosibl cael darpariaeth ddaearyddol fwy cyson pan fo llywodraeth yn llywio darpariaeth. Ar y llaw arall, lle gwneir penderfyniadau yn lleol mae'r loteri cod post yn amlwg unwaith eto. Rydyn ni'n rhannu pryderon y sector trais yn erbyn menywod y bydd comisiynu lleol a'r symudiad i ddefnyddio darparwyr mwy cyffredinol a mwy o faint nid yn unig yn gostwng nifer y gwasanaethau arbenigol ond hefyd yn arwain at golli sgiliau ac arbenigedd sefydliadol amhrisiadwy y sefydliadau hyn.

Beth yw Effaith y Loteri Cod Post?

Mae'r loteri cod post yn andros o gostus, i fywydau'r menywod eu hunain ac i gymdeithas yn fwy cyffredinol. Mae effaith trais yn amrywio o: Anaf corfforol; anhwylderau gynaecolegol; canlyniadau seicolegol, gan gynnwys problemau iechyd meddwl hirdymor, hunan-niweidio a hunanladdiad; amharu ar berthynas agos; cyfyngu ar gyfleoedd economaidd-gymdeithasol ar lefel gymdeithasol; ac allgáu cymdeithasol ehangach. Amcangyfrifir bod cost ddynol ac emosiynol trais yn y cartref yng Nghymru a Lloegr mewn blwyddyn yn unig yn £17 biliwn. Gan ddefnyddio dull astudiaeth achos, amcangyfrifwn bod y gost i'r Wladwriaeth o ddarparu cymorth arbenigol a neilltuol i fenyw a'i phlant sy'n eu galluogi i fod yn ddiogel yn £9,654 yn Hammersmith a Fulham lle *mae* yna wasanaethau. Ar y llaw arall yn Shrewburyness, lle nad oes gwasanaethau priodol, gallai cost darparu gwasanaeth o'r fath fod yn £337,054 yn y pen draw i'r Wladwriaeth.

Casgliadau ac Argymhellion

Cyflwynwyd dyletswyddau cydraddoldeb i'r sector cyhoeddus ym mhob rhan o'r DU, gyda'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Rhywiol yng Nghymru Lloegr a'r Alban y mwyaf diweddar ohonynt. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob corff cyhoeddus gymryd camau i ddileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon ar sail rhyw a hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng menywod a dynion. Mae gan lawer o gyrff cyhoeddus Prydain, gan gynnwys adrannau'r llywodraeth ac awdurdodau lleol ddyletswyddau penodol hefyd sy'n cynnwys pennu amcanion cydraddoldeb rhywiol, cyhoeddi Cynlluniau Cydraddoldeb Rhywiol ac asesu effaith rywiol polisïau newydd a chyfredol. Dylai Swyddfa'r Trydydd Sector sy'n rhan o Swyddfa'r Cabinet felly, fod yn asesu effaith rywiol polisïau ariannu

cyfredol o dan brosesau cenedlaethol a lleol. Gallai hyn gynnwys ymchwilio i ba raddau y mae a) cefnogaeth ar gyfer gwasanaethau arbenigol yn rhan o gynlluniau cydraddoldeb rhywiol; b) darparwyr cyffredinol yn cael eu ffafrio mewn prosesau tendro cystadleuol yn lleol; ac c) ariannu gwasanaethau rheng flaen yn cydymffurfio â COMPACT y Llywodraeth gyda'r Trydydd Sector.

Mae *Mapio'r Bylchau* yn cofnodi diffygion sylweddol yn narpariaeth gwasanaethau arbenigol ledled y DU ac yn dangos sut y byddai dull strategol o ymdrin â thrais yn erbyn menywod yn arwain at well darpariaeth a darpariaeth mwy cyfartal. Mewn gwirionedd bydd y galw mwyaf am gymorth yn cael ei wneud ar y gwasanaethau anstatudol ac rydyn ni'n galw ar bob lefel o lywodraeth i gydnabod a gwerthfawrogi cyfraniadau sector gwirfoddol menywod yn y gorffennol ac ar hyn o bryd i'r gwaith o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a darparu cymorth yn ôl anghenion menywod. Wrth eu cydnabod, dylid defnyddio'u harbenigedd i ddatblygu polisïau a sicrhau strategaethau ariannu hirdymor a sefydlog.

Mae profiad yr Alban yn profi bod buddsoddi mewn gwasanaethau cymorth sector gwirfoddol rheng flaen yn arwain at elw sylweddol. Dylid ystyried yr Alban felly fel meincnod o ran ei dull strategol, ei bod yn cydnabod mai trais sy'n achosi anghydraddoldeb menywod ac yn ganlyniad iddo a'i hymrwymiad i wella gallu ac amrywiaeth darpariaeth. Dylai llywodraethau cenedlaethol a rhanbarthol ddilyn esiampl Llywodraeth yr Alban wrth ddatblygu strategaethau trais yn erbyn menywod sydd ag ymrwymiad craidd i ariannu gwasanaethau cymorth arbenigol. Dylid ystyried hyn hefyd fel rhan o'u rhwymedigaethau cyfreithiol o dan ddyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

Dylai awdurdodau lleol ledled y DU ddilyn esiampl Cyngor Dinas Glasgow ac ymrwymo i ddarparu cyllid hirdymor ar gyfer gwasanaethau cymorth arbenigol i'r rhai sy'n wynebu trais. Dylai hyn fod yn rhan o ddull strategol ar gyfer trais yn erbyn menywod a dylid ei ystyried yn rhan o'u rhwymedigaethau cyfreithiol o dan ddyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, dylai llywodraethau Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ddatblygu fframwaith ariannu ar gyfer gwasanaethau rheng flaen arbenigol, tebyg i Gronfa Trais yn Erbyn Menywod yn yr Alban, er mwyn sicrhau bod menywod ledled y DU yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau hanfodol hyn.

Mae menywod yn haeddu cael gafael ar wasanaethau cymorth o ansawdd. Yn syml, mae gadael y sefyllfa fel y mae yn rhy gostus, nid yn unig i'r menywod eu hunain ond i gymdeithas yn fwy cyffredinol. Rhaid rhoi diwedd ar y loteri cod post trwy lenwi'r bylchau.

---

1 Mae gwasanaethau cymorth trais yn erbyn menywod yn cael eu diffinio fel sefydliadau sy'n gweithio'n bennaf ar drais *ac* yn darparu cymorth uniongyrchol sylweddol i fenywod sydd wedi dioddef/goroesi trais.